CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
3 Ebrill 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, S Hughes, N Jones, D Gwyn, A Mummery, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Cyng O Evans, R Williams (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng E Williams - FPL/2019/11 Gweirglodd Bach, Penmynydd
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06.03.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae'r Swings newydd wedi cael eu osod. Cynigodd Cyng N Jones cael pris am postyn newydd i'r giat. Dywedodd Cyng S Hughes fod ganddo giât ar gael i'w defnyddio
4.2	**Ymateb Llywodraeth Cymru** - Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal 17.04.19 yn y Ganolfan Penmynydd
4.3	**Lon Bryn Ffynnon** - Cynigodd Cyng A Mummery cysylltu a'r Cyngor Sir am diweddariad
4.4	**Gor-yrru a materion Penmynydd** - Disgwyl ymateb llawn gan y Cyngor Sir
4.5	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.6	**Rheolau Sefydlog a Cyllid -** Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Cyllid gan y Cyngor
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Cynllunio
5.1	FPL/2019/11 Gweirglodd Bach, Penmynydd. Ni thrafodwyd y cais gan ei fod allan o amser
5.2	HHP/2019/24 Rhyd y Delyn Bach, Penmynydd - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.3	**Gor-yrru a materion Penmynydd -** Cydnabod derbyn nodyn atgoffa gan y Cyngor Sir
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Jill Evans MEP** Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru - Darllenwyd llythyr yn gofyn i'r cyngor basio cynnig yn datgan na fydd y gymuned yn gwirfoddoli i gladdu gwastraff niwclear o dan y ddaear. Cytunwyd i wneud hynny
6.2	**Llwybr troed Bryngof - pont dros yr A55.** Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir.
	Llofnod **Cadeirydd** **01.05.19**

6.3	**Cyng Mike Parry, Pwllheli** - Darllenwyd llythyr yn dweud “Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig canoli pob darpariaeth fasgwlaidd frys yn Ysbyty Glan Clwyd. Y tro cyntaf i unrhyw ddarpariaeth frys gael ei symud o Ysbyty Gwynedd, felly mae hon yn gynsail peryglus iawn " Nid yw Cyngor Cymuned Penmynydd yn cefnogi'r newid.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Derbyn y Cyfrifon 2018/19 - Derbyniodd y Cyngor y Cyfrifon
7.2	MANDAD Nat West. Bydd angen tynnu Awen Evans o'r MANDAD. Bydd y Clerc yn trefnu cael ffurflenni o'r banc.
7.3	J A Foulkes £60.00 (archwilio 2017/18) - cytunwyd i dalu
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Contract gwaith y Clerc - Derbyniwyd cytundeb y Clerc gan y Cyngor / Clerc
8.2	Bws yn parcio wrth ymyl troad Pentre Berw - bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir unwaith eto
8.3	Trefnu hysbysebu un sedd wâg yn dilyn ymddiswyddiad Rhys Davies. Bydd y Clerc yn trefnu hyn
8.4	Cwyn am llwybr Tyddyn Felin - trafod yn y cyfarfod nesaf
8.5	Twll yn y lôn Penmynydd (wrth ymyl y lle glo). Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Torri coed Penmynydd (Scottish Power)
	Llofnod **Cadeirydd** **01.05.19**